

**Adroddiad Arolwg Llystyfiant – Gwarchodfeydd Natur Ymyl
Ffordd ac Ardaloedd Peilot Rheolaeth Amgen o Leiniau Ymyl
Ffordd Sir Ddinbych**

Medi 2013



Cynnwys

1	RHAGARWEINIAD	3
1.1	Cefndir	3
1.2	Rheolaeth a gwerth cadwraeth lleiniau ymyl ffordd	3
1.3	Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd	4
1.4	Ardaloedd Peilot Rheolaeth Amgen	4
1.5	Amcanion yr Astudiaeth	5
2	METHODOLEG	6
3	CANLYNIADAU	6
3.1	Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd	6
3.1.1	Aelwyd Uchaf	6
3.1.2	Bont yr Allt Goch	7
3.1.3	Coed Talwrn	8
3.1.4	Cwrs Golff Dinbych	8
3.1.5	Graig Ddyrys	9
3.1.7	Lower Dinbren Road	9
3.1.8	Pen y Felin	10
3.1.9	Plas Tyna	10
3.1.10	Rock Farm	11
3.2	Ardaloedd Peilot Rheolaeth Amgen	12
3.2.1	Llanarmon-yn-Iâl	12
3.2.2	Bryneglwys	12
3.3	Sylwadau eraill	13
4	CASGLIADAU	13

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Cefndir

Mae naw safle ar hyd a lled Sir Ddinbych sydd wedi'u dynodi'n warchodfeydd natur ymyl ffordd er mwyn diogelu naill ai rhywogaethau planhigion anghyffredin neu gymunedau o blanhigion nad ydynt bellach yn gyffredin yn y cefn gwlad amgylchynol. Ers i'r gwarchodfeydd hyn gael eu dynodi, cydnabuwyd angen am ddull ehangach o reoli lleiniau ymyl ffordd ar hyd a lled y sir ar gyfer bioamrywiaeth. Dynodwyd dwy ardal beilot ar gyfer cyfundrefnau rheoli amgen gyda'r amcan o hyrwyddo cynefinoedd glaswelltir. Mae angen monitro'r safleoedd hyn yn barhaus i benderfynu ar effeithiau rheolaeth amgen.

Adroddir ar ganlyniadau arolygon cyflwr lleiniau ymyl ffordd y safleoedd hyn a gynhaliwyd yn yr haf 2013 yn y ddogfen hon. Lluniwyd rhestrau o rywogaethau ar gyfer pob safle a chânt eu cymharu gydag arolygon blaenorol. Gwnaed arsylwadau o gyflwr y safle mewn perthynas â'r rheolaeth a bennwyd. At ei gilydd, canfuwyd bod y safleoedd mewn cyflwr ffafriol gydag amrywiaeth o gynefinoedd glaswelltir cyfoethog mewn rhywogaethau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, lle na lynwyd wrth y gyfundrefn rheoli, canfuwyd bod cyfoeth y rhywogaeth wedi gostwng. Trafodir y canfyddiadau hyn yn llawn yng nghorff yr adroddiad hwn ond i ddechrau, crynhoir cyd-destun yr ymchwil hon isod.

1.2 Rheolaeth a gwerth cadwraeth lleiniau ymyl ffordd

Mae rheolaeth lleiniau ymyl ffordd newydd fynd yn bwnc dadleuol gyda chwynion gan y cyhoedd ac erthygl tudalen flaen yn y Denbighshire Free Press yn ymwneud â rheolaeth anffafriol ar gyfer blodau gwyllt. I'r gwrthwyneb, mae cwynion wedi dod i law hefyd mewn perthynas â diogelwch y ffordd yn sgil llai o dorri. Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â diogelwch y ffordd ac o ran hyrwyddo bioamrywiaeth.



Hybyseb papur newydd ar yr A5 ym Mehefin 2013

Mae lleiniau ymyl ffordd yn cynrychioli llochesau o gymunedau planhigion cyfoethog mewn rhywogaethau. Adlewyrchant y fioamrywiaeth sy'n hanesyddol bresennol yn y cefn gwlad amgylchynol ond sydd wedi'u colli ers hynny yn sgil arferion ffermio dwys a modern. Yn benodol, cefnogant ystod eang o gynefinoedd glaswelltir (gan gynnwys calchaid, niwtral ac asid) gyda gwahaniaethau yn sgil topograffi lleol, priddoedd, daeareg, uchder a chysgod. Ceir gofynion cyfreithiol yn ymwneud â'r cynefinoedd hyn.

Er enghraifft, mae Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth (UKBAP) yn rhestru glaswelltiroedd fel cynefinoedd blaenoriaeth a nodwyd lleiniau ymyl ffordd cyfoethog mewn blodau gwyllt yn rhai i weithredu arnynt yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych.

Mae'r cynefinoedd hyn hefyd yn cynnwys nifer o rywogaethau blaenoriaeth a restrir yn y ddeddfwriaeth uchod.

Cynefinoedd blaenoriaeth Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth:

Gwrychoedd (gan gynnwys llystyfiant llysieuol o fewn 2m o ganol y gwrych),
Glaswelltir Calchaid yr Iseldir, Glaswelltir Sych Asidig yr Iseldir, Dolydd yr Iseldir,
Glaswelltir Calchaid yr Ucheldir)

Cynefinoedd Blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Blaenoriaeth Lleol Sir Ddinbych:

Coridorau cludiant (gan gynnwys lleiniau ymyl ffordd), Glaswelltir Sur, Glaswelltir
Calchaid, Glaswelltir Niwtral,

Gwerth lleiniau ymyl ffordd yw eu bod yn cynrychioli gweddillion cymunedau planhigion sy'n dirywio sy'n cefnogi bioamrywiaeth ehangach. Er enghraifft, mae lleiniau ymyl ffordd cyfoethog mewn blodau gwyllt yn darparu ffynhonnell neithdar dibynadwy ar gyfer peillyddion pwysig fel gwenyn. Mae lleiniau ymyl ffordd yn darparu bwyd a lloches i anifeiliaid gwyllt ac, yn ogystal â'r gwrychoedd cysylltiedig, yn darparu coridorau pwysig sy'n cysylltu cynefinoedd fyddai'n unig fel arall.

Mae angen torri lleiniau ymyl ffordd er mwyn atal llystyfiant rhag gorgyffwrdd â'r ffyrdd ac i atal glaswelltir rhag droi'n brysgwydd. Mae torri'n diogelu cynefinoedd glaswelltir trwy dynnu prysgwydd, rhywogaethau llysieuol tal a gwellt bras, gan leihau'r gystadleuaeth am olau a chan alluogi ystod ehangach o rywogaethau i dyfu.

Yn hanesyddol, torrwyd lleiniau ymyl ffordd ar gyfer gwair, gan atal dilyniant i brysgwydd ar yr un pryd a chan dynnu ymaith maetholion dros ben yr oedd eu hangen ar rywogaethau mwy cystadleuol. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, cafodd y broses hon ei mecaneiddio gan beiriannau ffustio sy'n gadael toriadau ac sy'n gallu blingo priddoedd. Mae hyn wedi arwain at ddirywiad yn ansawdd y cynefinoedd glaswelltir lleiniau ymyl ffordd.

1.3 Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd

Mae naw Gwarchodfa Natur Ymyl Ffordd yn Sir Ddinbych sydd wedi'u dynodi i gael eu rheoli naill ai ar gyfer rhywogaethau planhigion anghyffredin neu gymuned o blanhigion sydd wedi diflannu i bob pwrpas o'r cefn gwlad nesaf ato. Mae gan bob un o'r safleoedd hyn amserlen reoli sy'n benodol i hyrwyddo'r cymunedau neu'r rhywogaethau hyn. Caiff

ffiniau'r gwarchodfeydd hyn eu nodi gan byst i ddangos i'r partïon sy'n rheoli ble mae'r rheolaeth amgen yn berthnasol.

1.4 Ardaloedd Peilot Rheolaeth Amgen

Nodwyd dwy ardal beilot i reoli lleiniau ymyl ffordd yn gydymdeimladol o ran bioamrywiaeth. Dewiswyd yr ardaloedd hyn ar sail cyfansoddiad eu cynefinoedd.

Mae ardal beilot Llanarmon-yn-lâl wedi'i chanoli o gwmpas Llanarmon-yn-lâl, gan ymestyn i'r gogledd i Eryrys ac i'r dwyrain i Grianrhyd ac mae'n cynnwys y B5431. Nodweddir yr ardal gan ddaearreg calchfaen gyda phriddoedd niwtral i dra-fasig cysylltiedig. O ganlyniad, mae'r lleiniau ymyl ffordd yn cynnwys glaswelltir niwtral a chalchaid cyfoethog mewn rhywogaethau yn bennaf gyda chymunedau planhigion cysylltiedig. Mae'r lleiniau ymyl ffordd hyn yn nodweddiadol o hen a heb eu tarfu arnynt ac maen nhw nesaf at wrychoedd a waliau cerrig.

Mae ardal beilot Bryneglwys yn cynnwys ffyrdd gwledig rhwng yr A542 a'r A5104 i'r gorllewin o'r cylchdro rhwng y ddwy ffordd hyn. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys y ffordd rhwng Bryneglwys a Charrog. Mae gan yr ardal hon briddoedd mwy asidig na'r rhai yn ardal beilot Llanarmon-yn-lâl ac o ganlyniad mae'n cynnwys glaswelltir mwy niwtral i asidig yn ogystal â lleiniau ymyl ffordd mwy cysgodol sy'n gysylltiedig â choetiroedd a gwrychoedd.

Mae'r ddwy ardal beilot a nodwyd bellach o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn rhannol.

Dyma oedd yr amcanion rheoli ar gyfer yr ardaloedd hyn:

- Cynnal a gwella amrywiaeth y blodau gwyllt mewn lleiniau ymyl ffordd a chynnal hefyd gymunedau glaswelltir nodweddiadol.
- Cynnal poblogaethau o rywogaethau anghyffredin
- Darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt cysylltiedig gan gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn, adar a mamaliaid bach.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, penderfynwyd ar y gyfundrefn rheoli ganlynol. Yn ddelfrydol, dylid torri lleiniau ymyl ffordd unwaith y flwyddyn, heb fod yn gynharach na diwedd mis Gorffennaf. Dylid eu gadael heb eu torri yn ystod y gwanwyn/dechrau'r haf ac eithrio lle mae angen torri am resymau diogelwch. Lle mae lleiniau wedi'u cysgodi'n drwm gan goetir neu brysgwydd tal gerllaw, gallai twf prinnach ofyn am doriadau bob dwy flynedd yn unig. Lle bo'n ymarferol, dylid symud y toriadau ac, ar leiniau ymyl ffordd ehangach, dylid gadael cefn y lleiniau ymyl ffordd heb eu torri fel lloches.

1.5 Amcanion yr Astudiaeth

Mae amcanion yr astudiaeth hon fel a ganlyn:

- Monitro amrywiaeth y planhigion fasgwlaidd blodeuog a chyflwr lleiniau ymyl ffordd mewn Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd ac Ardaloedd Peilot.
- Rhoi gwybod i bartion rheoli perthnasol o effeithiolrwydd y rheolaeth bresennol ac amlygu unrhyw faterion yn hynny.

2 METHODOLEG

Cynhaliwyd arolygon safleoedd rhwng mis Mehefin a mis Awst 2013. Dewiswyd y cyfnod amser hwn i gyd-daro gyda thymor blodeuo mwyafrif y blodau gwyllt ac amlygrwydd mwyaf y rhywogaethau. Fodd bynnag, yn sgil gwanwyn anarferol o oer, roedd llawer o rywogaethau'n hwyrach yn blodeuo a allai fod wedi dylanwadu ar y canlyniadau. Cerddwyd ar hyd lleiniau ymyl ffordd a chofnodwyd pob rhywogaeth lysieuol oedd yn tyfu yn y lleiniau ymyl ffordd (ac eithrio glaswellt). Eithriwyd rhywogaethau sy'n tyfu o wrychoedd, a fyddai'n cael eu torri wrth reoli gwrychoedd, ac felly'n cael eu heffeithio'n llai gan y gyfundrefn rheoli lleiniau ymyl ffordd.

Nodwyd planhigion i rywogaethau (neu dylwyth lle nad yw rhywogaethau'n bosibl) gan ddefnyddio allwedd Francis Rose (2006) yn *The Wildflower Key*. Croesgyfeiriwyd rhywogaethau ar gyfer amlder cenedlaethol/rhanbarthol a hefyd er mwyn eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth ac /neu Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych. Lle mae data arolwg blaenorol yn bodoli, gwnaed cymariaethau rhwng y rhywogaethau a gofnodwyd yn flaenorol a'r rhywogaethau sydd wedi'u cofnodi ar hyn o bryd. Mae rhywogaethau nodedig a gweledol amlwg wedi'u cynnwys ar gyfer pob gwarchodfa ac ardal beilot yn rhannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Cofnodwyd arsylwadau o gyflwr y lleiniau ymyl ffordd yn ystod yr arolygon gan gyfeirio at y rheolaeth a bennwyd o warchodfeydd natur ymyl ffordd ac amcanion rheoli'r ardaloedd peilot.

3 CANLYNIADAU

3.1 Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd

Caiff canfyddiadau pob gwarchodfa natur ymyl ffordd eu cynnwys isod.

3.1.1 Aelwyd Uchaf

Arolygwyd 04/07/13

Yn arolwg 1998 Aelwyd Uchaf, nodwyd dau gynefin o fath amlwg: cloddiau cyfoethog mewn rhywogaethau hynafol, a glaswelltir niwtral gyda rhywogaethau coetir hynafol *Saniclua europea* (Clust yr arth), *Mercurialis perennis* (Bresych y Cŵn) a *Hyacinthoides non-scripta* (Clychau'r gog); a glaswelltir niwtral gyda *Rhinanthus minor* (Cribell Felen), *Centaurea nigra* (Y Bengaled), *Hypericum tetrapteum* (Eurinllys Pedrongl) a *Linaria*

vulgaris (Llin y Llyffant). Canfuwyd bod yr holl rywogaethau a gofnodwyd yn flaenorol yn bresennol yn yr arolwg hwn ac eithrio *L. vulgaris*, sy'n blodeuo rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref ac felly hwyrach nad oeddent yn weledol amlwg adeg yr arolwg.

Yn ogystal â'r rhywogaethau uchod, nododd yr arolwg cyfredol hefyd bresenoldeb rhywogaethau dangosol coetir hynafol: *Fragaria vesca* (Mefus Gwyllt), *Potentilla sterilis* (Mefus Coeg) a *Primula veris* (Briallu Mairsawrus). Roedd y rhywogaethau oedd yn hynod amlwg yn y glaswelltir niwtral yn cynnwys *Lathyrus pratensis* (Ytbys y Waun), clystyrau o *Dactylorhiza fuchii* (Tegeirian Brych Cyffredin) a *Knautia arvensis* (Clafrllys).

Mae'r amserlen reoli ar gyfer y safle hwn yn pennu un toriad blynyddol i'r clawdd yn ystod mis Medi a dau doriad blynyddol o'r llain ymyl ffordd glaswelltir niwtral ym mis Mai a mis Medi. Dylid symud yr holl doriadau.

Ar adeg yr arolwg, nid oedd y clawdd wedi'i dorri ac roedd yn cefnogi cymuned amrywiol o flodau gwyllt. Ymddengys bod y llain ymyl ffordd glaswelltir niwtral wedi'i dorri yn y metr agosaf at y ffordd, ond ymhellach yn ôl roedd y glaswelltir wedi tyfu'n dal ac roedd y lleiniau ymyl ffordd yn gyfoethog o flodau gwyllt, heb dystiolaeth o droi'n brysgwydd.

Crynodeb

Ymddengys bod y rheolaeth gyfredol yn ffafriol i gynnal y cymunedau planhigion yn y warchodfa.

3.1.2 Bont yr allt goch

Arolygwyd 26/06/13

Mae gwarchodfa Bont yr Allt Goch yn cynnwys llain ymyl ffordd glaswelltir iseldir cyfoethog mewn rhywogaethau sy'n wynebu'r de, gyda *Lychnis flos-cuculi* (Carplog y Gors) a *Lotus corniculatus* (Pys Ceirw), a'r llain ymyl ffordd eang o gynefinoedd tebyg ar y tu mewn i'r gornel gyferbyn â Phen-y-bont. Yn ogystal â'r rhywogaethau uchod, mae'r warchodfa hefyd yn cefnogi poblogaeth o *Vicia bithynica* (Ffacbys Rhuddlas), a restrwyd fel rhywogaeth blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych ac fel rhywogaeth dan fygythiad ar Restr Goch IUCN y DU. Canfuwyd bod pob un o'r rhywogaethau uchod yn bresennol. Yn ogystal, nodwyd *Centaurea nigra* (Y Bengaled), *Sonchus oleraceus* (Llaethysgall Lefn), *Filipendula ulmaria* (Brenhines y Weirglodd), *Vicia sativa* a *V. Cracca* (Ffacbys a Thagwyg).

Y rheolaeth a bennwyd oedd toriad dwywaith y flwyddyn ym mis Mai a mis Medi gyda'r holl doriadau'n cael eu symud, ac ni ddylai'r toriad fod yn fwy na 1.5m o'r ffordd ar y tro.

Pan arolygwyd y warchodfa ar ddiwedd mis Mehefin, roedd newydd gael ei thorri ac roedd toriadau wedi'u gadael. Roedd y llain ymyl ffordd ar y tro wedi'i thorri'n ôl i linell y gwrych (dros 2 metr) ac roedd y llain nesaf at ffensys yr ystâd ar ochr ogleddol y ffordd wedi'i thorri'n fyr hefyd. Cofnodwyd bod un sbesimen byw o *Vicia bithynica* (Ffacbys Rhuddlas) yn tyfu, ac yn ei flodau, o islaw'r gwrych yn ffinio â rhan y toriad a nodwyd gweddillion sbesimenau wedi'u torri, yn blodeuo ymhlith y toriadau oedd ar ôl.

Crynodeb

Mae'r arsylwadau'n awgrymu nad oedd y rheolaeth ar y safle hwn fel y pennwyd ac nid oedd yn cefnogi cadwraeth y rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth.

3.1.3 Coed Talwrn

Arolygwyd 19/06/13

Mae gwarchodfa Coed Talwrn yn goetir/clawdd calchfaen hynafol gan mwyaf gyda *Geranium robertianum* (Llysiâu'r Llwynog), *Geum urbanum* (Mapgoll), *Viola riviniana* (Fioled) ac *Oxalis acetosella* (Suran y Coed). Cofnodwyd yr holl rywogaethau uchod ar wahân i *V. riviniana*, fodd bynnag cofnodwyd rhywogaethau dangosol eraill y coetir: *Stellaria holostea* (Tafod yr Edn Mwyaf), *Lonicera periclymenium* (Gwyddfid), *Fragaria vesca* (Mefus Gwylt), *Mercuriales perrenis* (Bresych y Cŵn) a *Hyacinthoides non-scripta* (Clychau'r Gog). I gyfeiriad y de o Fferm Coed-talwrn, mae'r gorchudd coed yn lleihau a'r cynefin yn newid i laswelltir yr iseldir gyda *Silene dioica* (Blodyn Taranau), *Lotus corniculatus* (Pys Ceirw), *Geranium lucidum* (Pig yr Aran Loyw) a *Cruciata laevipes* (Paderau Mair).

Mae amserlen y warchodfa'n pennu un toriad bob yn ail mis Medi oherwydd natur cysgodol mwyafrif y warchodfa. Adeg yr arolwg, roedd yr ardaloedd coetir cysgodol yn cefnogi'r cymuned planhigion ddisgwyliedig, nad oeddent yn gorgyffwrdd â'r ffordd.

Crynodeb

Ymddengys bod y rheolaeth yn gefnogol i gynnal a chadw'r cynefin hwn.

3.1.4 Cwrs Golff Dinbych

Arolygwyd 03/07/13

Mae gwarchodfa ymyl ffordd Cwrs Golff Dinbych yn cynnwys glaswelltir niwtral heb ei drin gyda *Lotus corniculatus* (Pys Ceirw), *Lathyrus pratensis* (Ytbys y Waun), *Centaurea scabiosa* (Y Bengaled Fawr), *Plantago media* (Llyriaid Llwydion), *Geranium lucidum* (Pig yr Aran Loyw), *Leontodon hispidus* (Peradyl Garw), *Pimpinella saxifraga* (Gwreiddiriog Gwyddlwyn) ac *Agrimonia eupatoria* (Llysiâu'r Dryw) pan gafodd ei arolygu ym 1996. Ni chofnodwyd *G. lucidum*, *P. saxifraga* ac *A. eupatoria* ond roedd y llain ymyl ffordd yn gyfoethog mewn rhywogaethau glaswelltir niwtral eraill gan gynnwys: *Galium verum*

(Briwydd Felen), *Silene vulgaris* (Gludlys Cyffredin), *Cerastium glomeratum* (Clust y Llygoden Llydanddail) a *Tragopogon pratensis* (Barf y Bwch).

Y cynllun rheoli ar gyfer y warchodfa hon yw dau doriad y flwyddyn ym mis Mai a mis Hydref gyda'r holl doriadau'n cael eu symud. Roedd y glaswelltir ym mwyafrif y warchodfa hon mewn cyflwr cyffredinol dda ond gydag arwyddion o gael eu trin yn agosach at y gwrychoedd gydag ardaloedd dan ddylanwad *Anthriscus sylvestris* (Gorthyfail) a *Heracleum sphondylium* (Efwr). Fodd bynnag, mae'r llain ymyl ffordd lydan nesaf at faes parcio'r cwrs golff wedi'i thorri'n agos ac mae'n wan o ran rhywogaethau lle *Trifolium repens* (Meillion Gwyn) yw'r unig rywogaeth flodeuo sydd wedi'i chofnodi ar y lawnt.

Crynodeb

At ei gilydd, ymddengys bod rheolaeth y safle hwn yn ffafriol ar gyfer cynefinoedd gwarchodedig ond gallai fod angen cysylltu â Chwrs Golff Dinbych mewn perthynas â'r ardal nesaf at eu heiddo.

3.1.5 Graig Ddyrys

Arolygwyd 02/07/13

Mae Graig Ddyrys yn cynrychioli isdyfiant coetir calchfaen hynafol gyda Chlust yr Arth a Chlychlys Mawr wedi'u cofnodi yn arolygon 1993 ac 1998 y safle. Ni ddaethpwyd o hyd i'r rhywogaethau hyn yn ystod yr arolwg ond roedd rhywogaethau eraill cysylltiedig â choetiroedd hynafol yn doreithiog a oedd yn cynnwys *Mercurialis perrenis* (Bresych y Cŵn), *Stellaria holostea* (Tafod yr Edn Mwyaf), *Fragaria vesca* (Mefus Gwyllt), *Galium odoratum* (Mandon) ac *Allium ursinum* (Craf y Geifr).

Yn ogystal, cofnododd y warchodfa'n flaenorol *Platanthera bifolia* (Tegeirian Llydanwyrdd Bach) cefnogol, sef rhywogaeth blaenoriaeth Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth sydd wedi'i rhestru dan fygythiad ar Restr Goch IUCN y DU. Er mai dim ond un sbesimen oedd yn cynrychioli'r rhywogaeth hon, canfuwyd ei bod yn bresennol ac yn blodeuo yn ystod yr arolwg cyfredol.

Mae'r cynllun rheoli ar gyfer Graig Ddyrys yn pennu un toriad ym mis Medi. Yn unol â'r rheolaeth hon, nid oedd y warchodfa wedi'i thorri adeg yr arolwg. Mae cysgod trwm dros y safle ac roedd y llystyfiant yn isel ar y tir ac felly, fel y nodwyd yn y cynllun rheoli, mae'n bosibl nad oes angen torri'r safle.

Crynodeb

Ymddengys bod y rheolaeth o'r cynefin coetir hynafol yn ffafriol ond gallai fod angen rhagor o waith monitro o boblogaeth *P. bifolia*.

3.1.6 Lower Dinbren Road

Arolygwyd: 18/06/13

Mae gwarchodfa Lower Dinbren Road yn ddarn 50m o laswelltir calchaid yn wynebu cyfeiriad y de sy'n cefnogi poblogaeth o *Geranium pratense* (Pig Garan y Weirglodd). Cofnodwyd Pig Garan y Weirglodd yn yr arolwg hwn yn ogystal â rhywogaethau eraill gan gynnwys: *Vicia sepium* (Ffacbys y Cloddiau), *Myosotis arvensis* (Ysgorpionllys), *Stellaria media* (Gwlydd yr Ieir), *Silene dioica* (Blodyn Taranau) a *Cruciata laevipes* (Paderau Mair).

Y rheolaeth a bennwyd ar gyfer y safle hwn oedd un toriad y flwyddyn ym mis Hydref. Canfuwyd bod y lleiniau ymyl ffordd heb eu torri adeg yr arolwg yn unol â'r cynllun rheoli.

Crynodeb

Ymddengys bod y rheolaeth yn addas.

3.1.7 Pen-y-felin

Arolygwyd 19/06/13

Mae gwarchodfa Pen y Felin yn cynnwys coetir calchfaen yn wynebu'r de gydag ardaloedd bach o laswelltir calchaid a wal gerrig sych. Mae'r rhywogaethau coetir a gofnodwyd yn flaenorol yn cynnwys: *Geum urbanum* (Mapgoll), *Mercurialis perennis* (Bresych y Cŵn), *Stellaria holostea* (Tafod yr Edn Mwyaf) a *Teucrium scorodonia* (Chwerwlys), y canfuwyd bod pob un ohonynt yn bresennol, ac eithrio *T. scorodonia* nad oedd yn aeddfed o bosibl adeg yr arolwg. Mae'r rhywogaethau glaswelltir a gofnodwyd yn flaenorol yn cynnwys: *Galium verum* (Briwydd Felen), *Campanula rotundifolia* (Bwtsias y Gog), *Succisa pratensis* (Clafrllys Gwreidd-dan), *Lotus corniculatus* (Pys Ceirw) a *Jasione Montana* (Clafrllys y Mynydd) lle dim ond *L. corniculatus* a nodwyd yn yr arolwg presennol. Fodd bynnag, hwyrach nad oedd *S. pratensis*, *G. verum* a *C. rotundifolia* yn eu blodau ar y pryd. Cofnododd arolygon blaenorol fod *Umbilicus rupestris* (Bogail y Forwyn) yn tyfu o'r wal gerrig sych, y cafodd y ddau ohonynt eu nodi yn yr arolwg cyfredol.

Y rheolaeth a bennwyd oedd un toriad ym mis Medi a monitro a rheoli'r gorgyffyrddiad gan brysgwydd a rhedyn lle bo angen. Roedd y warchodfa heb ei thorri adeg yr arolwg; fodd bynnag roedd olyniaeth sylweddol i brysgwydd a rhedyn yn ôl o ochr y ffordd lle'r oedd y llain ymyl ffordd yn ddyfnach. Gallai'r gorgyffyrddiad hwn esbonio pam fod llai o rywogaethau glaswelltir wedi'u dynodi.

Crynodeb

Mae'r rheolaeth flynyddol bresennol yn ymddangos yn addas, ond mae angen rheoli prysgwydd a rhedyn er mwyn diogelu'r cynefinoedd glaswelltir.

3.1.8 Plas Tyna

Arolygwyd 26/06/13

Nodwyd dau fath o gynefin yn y cynllun rheoli ar gyfer Plas Tyna: Gwrych hynafol cyfoethog mewn rhywogaethau gyda Chlychau'r Gog, Mapgoll, Clychlys Mawr a Thafod yr Edn Mwyaf a chyda Mapgoll Glan y Dŵr ac Erwain nesaf at y ffosydd; a glaswelltir calchaid gyda theulu'r cor-rosyn, Tegeirian Porffor y Gwanwyn, Gwyddlwyn Cyffredin, Briwydd Felen a Briallu Mairsawrus. Nodwyd mwyafrif y rhywogaethau a ddisgrifiwyd yn flaenorol yn yr arolwg hwn a byddai disgwyl i'r rhai nad oeddent wedi'u nodi (Clychau'r Gog, Tegeirian Porffor y Gwanwyn, Briallu Mairsawrus a Chlychlys Mawr) naill ai fod wedi gorffen blodeuo neu nid oeddent yn ddigon aeddfed ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg. Roedd y rhywogaethau eraill a nodwyd yn cynnwys: Bresych y Cŵn, a Mefus Gwyllt mewn gwrychoedd a Phys Ceirw, Pig yr Aran Loyw, Llaethysgall Arw a Barf y Bwch mewn rhannau o laswelltir.

Dylid torri'r llain ymyl ffordd bob blwyddyn ym mis Medi a gadael y toriadau. O arolygu, roedd y llain ymyl ffordd heb ei dorri yn unol â'r rheolaeth a bennwyd.

Crynodeb

Ymddengys bod y rheolaeth bresennol yn briodol i gynnal y warchodfa.

3.1.9 Rock Farm

Arolygwyd 17/06/13

Rheolir gwarchodfa natur ymyl ffordd Rock Farm am ei chynefin glaswelltir calchaid gyda *Linum catharticum* (Llin y Tylwyth Teg), *Carlina vulgaris* (Gellast), *Cirsium nutans* (Ysgall Gogwydd), *Polygala serpyllifolia* (Llyisiau'r Groes), *Calluna vulgaris* (Grug), *Succisa pratensis* (Clafrllys Gwreidd-dan), *Viola sp.* Fioled a rhywogaeth blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych *Cirsium acaule* (Ysgall Digoes). Mae llain ymyl ffordd ddwyreiniol y warchodfa wedi'i chynnwys hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) mynyddoedd Rhiwabon a Llantysilio, yn rhannol am y cynefinoedd calchaid.

Ni nodwyd y rhywogaethau ysgall ond hwyrach nad oeddent yn amlwg adeg yr arolwg. Roedd y rhywogaethau eraill a nodwyd yn flaenorol yn bresennol i gyd ac roedd y safle'n gyfoethog mewn rhywogaethau glaswelltir calchaid eraill gan gynnwys: *Orchis mascula* (Tegeirian Porffor y Gwanwyn), *Dactylorhiza fuchsia* (Tegeirian Brych), *Geranium pratense* (Pig Garan y Weirglodd) a *Leontodon hispidus* (Peradyl Garw).

Roedd yno rai ardaloedd hefyd o wrychoedd hynafol yn cefnogi *Hyacinthoides non-scripta* (Clychau'r Gog), *Allium ursinum* (Craf y Geifr) a *Fragaria vesca* (Mefus Gwyllt).

Y rheolaeth a bennwyd ar gyfer y safle hwn oedd un toriad y flwyddyn ym mis Gorffennaf, gyda'r holl doriadau wedi'u symud gan alluogi pori ysgafn gan ddefaid a chwingod. Roedd y llain ymyl ffordd heb ei thorri adeg yr arolwg ac roedd arwyddion o bori. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o redyn a phrysgwydd yn gorgyffwrdd â'r llain ymyl ffordd ddwyreiniol a allai fod yn niweidiol i gynefinoedd y glaswelltir.

Crynodeb

Ymddengys bod y rheolaeth yn addas ond gallai fod o fantais i fonitro gorgyffyrddiad y rhedyn a'r prysgwydd.

3.2 Ardaloedd Peilot

Mae'r canfyddiadau ar gyfer yr ardaloedd peilot wedi'u cynnwys isod.

3.2.1 Llanarmon-yn-Iâl

Arolygwyd: Rhwng 01/07/13 a 25/07/13

Cofnodwyd 135 o rywogaethau. Roedd y rhain yn nodweddiadol o laswelltir calchaid a niwtral gan mwyaf gyda'r rhywogaethau'n cynnwys *Centaurea nigra* (Y Bengaled), *Galium verum* (Briwydd Felen), *Geranium pratense* (Pig Garan y Weirglodd), *Hypericum maculatum* (Eurinllys Mawr), *Lathyrus pratensis* (Ytbys y Waun), *Leontodon hispidus* (Peradyl Garw), *Lotus corniculatus* (Pys Ceirw), *Sanguisorba minor* (Gwyddlwyn Cyffredin), *Scabiosa comubarica* (Clafrllys Bychan) a *Stachys sylvatica* (Briwllys y Goedwig).

Yn ogystal â'r cynefinoedd glaswelltir sy'n nodweddiadol o'r ardal beilot, nodwyd ardal fach o weundir i'r gogledd-ddwyrain o Eryrys gyda *Calluna vulgaris* (Grug), *Erica cinerea* (Grug Lledlwyd), *Vaccinium myrtillus* (Llus) a *Galium saxatile* (Briwydd Wen). Yn ogystal, roedd yna leiniau ymyl ffordd cysgodol gyda chymunedau cysylltiedig â choetiroedd gan gynnwys *Mercurialis perrenis* (Bresych y Cŵn), *Geum urbanum* (Mapgoll), *Fragaria vesca* (Mefus Gwyllt), *Hyacinthoides non-scripta* (Clychau'r Gog) a *Galium odoratum* (Mandon).

Nodwyd un rhywogaeth blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych: *Gymnadenia conopsea* (Tegeirian Pêr) (SJ 202,573).

Roedd y lleiniau ymyl ffordd heb eu torri adeg yr arolwg ac eithrio wrth gyffyrdd. Nid arsylwyd materion o leiniau ymyl ffordd yn gorgyffwrdd â'r ffyrdd ac roedd y gwelededd yn dda wrth y cyffyrdd.

3.2.2 Bryneglwys

Arolygwyd: Rhwng 25/07/13 a 30/07/13

Nodwyd 124 rhywogaeth a oedd yn adlewyrchu'n gyffredinol daeareg lai calchaid yr ardal. Roedd y rhywogaethau glaswelltir nodweddiadol yn cynnwys *Achillea ptarmica* (Distrewlys), *Campanula rotundifolia* (Bwtsias y Gog), *Centaurea nigra* (Y Bengaled), *Lathyrus pratensis* (Ytbys y Waun), *Lotus coniculatus* (Pys Ceirw), *Potentilla reptans* (Pumnaln Ymlusgol), *Rhinanthus minor* (Cribell Felen), *Tragopogon pratensis* (Barf y Bwch) a *Vicia cracca* (Tagwyg). Lle'r oedd y lleiniau ymyl ffordd dan gysgod, roedd y rhywogaethau'n cynnwys: *Alchemilla vulgaris* (Mantell Fair), *Hyacinthoides non-scripta* (Clychau'r Gog), *Mercurialis perennis* (Bresych y Cŵn), *Stellaria holostea* (Tafod yr Edn Mwyaf), a *Teucrium scorodonia* (Chwerwlys).

Roedd y lleiniau ymyl ffordd heb eu torri adeg yr arolwg ac eithrio'r lleiniau nesaf at yr ysgol hedfan a'r busnes gyferbyn a oedd wedi'u torri'n agos, fel a arsylwyd hefyd yn ystod arolwg 2005 yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt o'r ardal. Ni welwyd bod y lleiniau'n gorgyffwrdd â'r ffyrdd ar unrhyw adeg ond roedd y lleiniau ymyl ffordd wrth rai cyffyrdd rhwng y ffyrdd bach yn parhau heb eu torri a hwyrach eu bod yn achosi gwelededd cyfyngedig.

3.3 Sylwadau eraill

Wrth gynnal yr arolygon, aeth nifer o aelodau'r cyhoedd at yr arolygwyr ac roedd eu sylwadau'n unfrydol gefnogol o reolaeth lleiniau ymyl ffordd oedd yn gydymdeimladol tuag at flodau gwyllt. Yn aml iawn, roedd y bobl hyn yn anymwybodol o fodolaeth Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd neu'r ardaloedd peilot rheolaeth amgen o leiniau ymyl ffordd.

4 CASGLIAD

Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd

Nodwyd mwyafrif y rhywogaethau a gofnodwyd mewn arolygon blaenorol yn yr astudiaeth hon sy'n awgrymu, ar y cyfan, fod rheolaeth y gwarchodfeydd hyn wedi bod yn llwyddiannus i bob pwrpas wrth hybu cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig. Hwyrach fod angen rhagor o waith monitro a rheoli gorgyffyrddiad rhedyn a phrysgwydd wrth barhau i reoli rhai gwarchodfeydd, yn enwedig lle mae'r llain ymyl ffordd yn ddyfnach o'r ffordd ac felly nid ydynt yn cael eu torri'n gyson. Yn ogystal, fel y dangoswyd ym Mont-yr-Allt Goch, os bydd toriad cynnar yn cael ei oedi, hwyrach y byddai'n well torri dim ond lle mae diogelwch y ffordd yn gofyn am hynny yn hytrach na chynnal toriad llawn o'r safle.

Ni ddaethpwyd o hyd i'r pyst oedd yn nodi ffiniau'r gwarchodfeydd yn wreiddiol ar unrhyw safle, gan adael dim byd i nodi bod y gwarchodfeydd yn wahanol i leiniau ymyl ffordd cyfagos. At hynny, nid oedd aelodau'r cyhoedd y daethpwyd ar eu traws wrth arolygu'n gwybod dim am fodolaeth y gwarchodfeydd. Gallai pyst nodi newydd feddu ar ddau bwrpas wrth ddangos i'r partïon sy'n rheoli'r warchodfa lle mae'r rheolaeth

amgen yn berthnasol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddull cydymdeimladol i fioamrywiaeth y cyngor o reoli lleiniau ymyl ffordd.

Ardaloedd peilot

Ymddengys bod y rheolaeth amgen yn llwyddiannus wrth hyrwyddo cynefinoedd cysylltiedig â lleiniau ymyl ffordd yn unol â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth cenedlaethol a lleol heb gyflwyno unrhyw faterion i ddiogelwch ffordd yn ôl pob golwg. Roedd y lleiniau ymyl ffordd ar hyd y ddwy ardal beilot yn cefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau oedd yn gynrychioliadol o gynefinoedd lled-naturiol cysylltiedig.